OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 49 (Cy.17) (C.5)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2009

*Gwnaed - - - - 14 Ionawr 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 181 a 188(3) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enw

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2009.

### Y diwrnod penodedig

**2.** Mae adran 55 (Hawl disgyblion chweched dosbarth i gael eu hesgusodi rhag mynychu addoliad crefyddol) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 i ddod i rym ar 9 Chwefror 2009 o ran Cymru.

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

14 Ionawr 2009

(**1**) 2006 p.40.
(**2**) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn yn dod ag adran 55 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (Deddf 2006) i rym ar 9 Chwefror 2009.

Mae adran 55 o Ddeddf 2006 yn diwygio adran 71 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 er mwyn galluogi disgyblion chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir i dynnu'n ôl o addoliad crefyddol ac er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu wneud trefniadau i roi i ddisgyblion chweched dosbarth sy'n byrddio gyfle rhesymol i fynychu addysg grefyddol neu addoliad crefyddol yn unol â daliadau crefydd arbennig, os ydynt yn gofyn am hynny. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau wneud darpariaeth sy'n galluogi disgyblion chweched dosbarth mewn ysgolion arbennig a gynhelir i dynnu'n ôl o addoliad crefyddol.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau canlynol Deddf 2006 wedi eu dwyn i rym o ran Cymru gan Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 1 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 37(1) a (2)(a) | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 38 | 1 Medi 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 39 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 40 | 1 Medi 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adrannau 43 — 45 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 47 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 53 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 156 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 166 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 175 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 184 yn rhannol | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 184 yn rhannol | 1 Medi 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Atodlen 17 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Atodlen 18 yn rhannol | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Atodlen 18 yn rhannol | 1 Medi 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |

Mae amryw o ddarpariaethau Deddf 2006 wedi eu dwyn i rym o ran Lloegr gan yr Offerynnau Statudol canlynol: O.S. 2006/2990 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/54, O.S. 2006/3400, O.S. 2007/935 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/1271), O.S. 2007/1271, O.S. 2007/1801, O.S. 2007/3074 ac O.S. 2008/1971.

*Gweler* hefyd adran 188 (1) a (2) ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar 8 Tachwedd 2006 (dyddiad y Cydsyniad Brenhinol) ac 8 Ionawr 2007 (ddeufis ar ôl hynny).